**YSGOL WOW NEWYDD**

Annwyl riant/gofalwr,

Mae ysgol eich plentyn wedi dewis bod yn rhan o fenter gyffrous i annog mwy o blant a'u teuluoedd i gerdded i'r ysgol. **Caiff WOW – yr her cerdded i'r ysgol** ei chyflwyno gan Living Streets, elusen y DU ar gyfer cerdded bob dydd, i helpu cymaint o blant â phosibl i brofi manteision cerdded a throelli i'r ysgol.

Mae'r her sy'n cael ei harwain gan ddisgyblion yn galluogi plant i ddefnyddio dull hunanadrodd i nodi sut maen nhw'n cyrraedd yr ysgol bob dydd. Os ydyn nhw'n teithio'n llesol (cerdded/troelli, beicio, sgwtera, 'Parcio a Cherdded', neu'n dod oddi ar y trên/bws yn gynt) o leiaf unwaith yr wythnos am fis, cânt eu gwobrwyo â bathodyn. Mae mor syml â hynny!

**Beth yw manteision cerdded i'r ysgol?**

- Mae'r plant yn teimlo'n hapusach ac yn iachach
- Maen nhw'n cyrraedd yr ysgol wedi eu hadfywio ac yn barod i ddysgu
- Mae'n helpu i leihau tagfeydd a llygredd wrth gatiau'r ysgol

**Beth os na allwn ni gerdded i'r ysgol?**

Gall Parcio a Cherdded helpu eich plentyn i ennill ei fathodynnau WOW os oes angen i riant neu ofalwr yrru i'r ysgol. Parciwch tua **deg munud i ffwrdd** o'r ysgol a cherddwch neu droellwch weddill y daith.

Os ydych chi'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, dewch oddi ar y bws/trên **o leiaf ddeg munud i ffwrdd** a cherddwch weddill y daith (wedi'i gofnodi fel 'arall' ar Draciwr Teithio WOW).

Os nad yw cerdded i'r ysgol yn opsiwn, rydym yn cydweithio ag ysgolion i roi dull pwrpasol ar waith ar gyfer WOW sy'n diwallu anghenion eu disgyblion. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch hyblygrwydd WOW neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau am sut gallwn wella, byddem yn croesawu eich barn. E-bostiwch **walktoschool@livingstreets.org.uk**.

Dywedwch wrthym am eich profiadau o deithio i'r ysgol a gallech ennill taleb siopa gwerth £200: **surveymonkey.com/r/ParentWOW**.

**Beth yw bathodyn WOW?**

Mae 11 bathodyn i'w hennill rhwng mis Medi 2026 a mis Gorffennaf 2027. Mae pob bathodyn wedi'i ddylunio gan ddisgybl fel rhan o'n Cystadleuaeth Dylunio Bathodyn WOW blynyddol. Gellir ennill bathodyn newydd bob mis os yw disgyblion yn cerdded/troelli, beicio, sgwtera, Parcio a Cherdded neu'n dod oddi ar y trên/bws yn gynt o leiaf unwaith yr wythnos.

Mae WOW 2026/27 yn annog disgyblion i **Gerdded y Synhwyrau**, gyda bathodynnau sy'n darlunio popeth o sgwteri i flodau'r haul. Caiff y bathodynnau eu creu yng Nghernyw o ddeunydd a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi, gan gynnwys hen hambyrddau oergell, platiau plastig a thoriadau potiau iogwrt. Am ragor o wybodaeth, ewch i: **livingstreets.org.uk/recycling.**

Y llynedd, profodd dros 2,000 o ysgolion ledled y DU fanteision cerdded i'r ysgol gyda WOW. A fyddwch chi'n ymuno â ni?

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y rhaglen, cysylltwch â………………………………………………, neu dewch o hyd i ragor o wybodaeth a fideos defnyddiol yn: **livingstreets.org.uk/wowlaunch**

**Gadewch i ni gyfnewid y teithiau hynny i'r ysgol yn y car am deithiau cerdded i'r ysgol.**

**Living Streets**

## YSGOL WOW SY'N DYCHWELYD

LIVING STREETS DEWCH I NI GERDDED I'R YSGOL

Annwyl riant/gofalwr,

Mae cynllun Living Streets, WOW – yr her cerdded i'r ysgol yn ôl i helpu i annog cynifer o blant â phosibl i brofi manteision cerdded a throelli i'r ysgol.

Fel y gwyddoch chi, mae WOW yn fenter sy'n cael ei harwain gan ddisgyblion lle mae'r plant yn defnyddio dull hunanadrodd i nodi sut maen nhw'n cyrraedd yr ysgol bob dydd. Os ydyn nhw'n teithio'n llesol (cerdded/troelli, beicio, sgwtera, 'Parcio a Cherdded', neu'n dod oddi ar y trên/bws yn gynt) o leiaf unwaith yr wythnos am fis, cânt eu gwobrwyo â bathodyn. Mae mor hawdd â hynny!

### Beth yw manteision cerdded i'r ysgol?

- Mae'r plant yn teimlo'n hapusach ac yn iachach
- Maen nhw'n cyrraedd yr ysgol wedi eu hadfywio ac yn barod i ddysgu
- Mae'n helpu i leihau tagfeydd a llygredd wrth gatiau'r ysgol

### Beth os na allwn ni gerdded i'r ysgol?

Gall Parcio a Cherdded helpu eich plentyn i ennill ei fathodynnau WOW os oes angen i riant neu ofalwr yrru i'r ysgol. Parciwch tua **deg munud i ffwrdd** o'r ysgol a cherddwch neu droellwch gweddill y daith.

Os ydych chi'n defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, dewch oddi ar y bws/trên **o leiaf ddeg munud i ffwrdd** a cherddwch weddill y daith (wedi'i gofnodi fel 'arall' ar Draciwr Teithio WOW).

Os nad yw cerdded i'r ysgol yn opsiwn, rydym yn cydweithio ag ysgolion i roi dull pwrpasol ar waith ar gyfer WOW sy'n diwallu anghenion eu disgyblion. Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch hyblygrwydd WOW neu os oes gennych unrhyw awgrymiadau am sut gallwn wella, byddem yn croesawu eich barn. E-bostiwch **walktoschool@livingstreets.org.uk.**

Dywedwch wrthym am eich profiadau o deithio i'r ysgol a gallech ennill taleb siopa gwerth £200: **surveymonkey.com/r/ParentWOW.**

### Bathodynnau WOW

Mae 11 bathodyn i'w hennill rhwng mis Medi 2026 a mis Gorffennaf 2027. Mae pob bathodyn wedi'i ddylunio gan ddisgybl fel rhan o'n Cystadleuaeth Dylunio Bathodyn WOW blynyddol. Gellir ennill bathodyn newydd bob mis os yw disgyblion yn cerdded/troelli, beicio, sgwtera, Parcio a Cherdded neu'n dod oddi ar y trên/bws yn gynt o leiaf unwaith yr wythnos.

Mae WOW 2026/27 yn annog disgyblion i **Gerdded y Synhwyrau**, gyda bathodynnau sy'n darlunio popeth o sgwteri i flodau'r haul. Caiff y bathodynnau eu creu yng Nghernyw o ddeunydd a fyddai fel arall yn mynd i safleoedd tirlenwi, gan gynnwys hen hambyrddau oergell, platiau plastig a thoriadau potiau iogwrt. Am ragor o wybodaeth, ewch i: **livingstreets.org.uk/recycling.**

Y llynedd, profodd dros 2,000 o ysgolion ledled y DU fanteision cerdded i'r ysgol gyda WOW. A fyddwch chi'n ymuno â ni?

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y rhaglen, cysylltwch â………………………………………………, neu dewch o hyd i ragor o wybodaeth a fideos defnyddiol yn: **livingstreets.org.uk/wowlaunch**

**Gadewch i ni gyfnewid y teithiau hynny i'r ysgol yn y car am deithiau cerdded i'r ysgol.**

**Living Streets**